# Dyfarniad Rheoleiddio

## Rhagfyr 2025

## Cymdeithas Tai Unedig Cymru Cyfyngedig - J099

## Dyfarniad

| Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion.** |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| **Gwyrdd** | **Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion.** |

**Y Broses Asesu**

Cynhaliwyd yr asesiad o Gymdeithas Tai Unedig Cymru yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025. Yn ogystal â chwmpas safonol llywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol, yn dilyn adolygu hunanwerthusiad yr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, cynllun gwella cydymffurfio (CIP) a dogfennau cysylltiedig, adolygwyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn fwy manwl.

Ynghyd ag adolygiad o ddogfennau a ffurflenni rheoleiddiol, cynhaliwyd cyfweliadau â'r Prif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd y Bwrdd, arsylwyd cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg a mynychodd y tîm rheoleiddio gyfarfod y panel preswylwyr. Gwnaethom hefyd ystyried gwybodaeth o ganlyniad i gysylltu â'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn rheolaidd.

**Y Gwelliannau sydd eu hangen**

Dangosodd yr asesiad fod yn rhaid gwella cydymffurfiaeth â'r Safonau Rheoleiddio a nodir isod neu fod angen rheoli risgiau materol yn agos, er mwyn parhau i fodloni ein gofynion:

| Safon Reoleiddio | Gwelliant Angenrheidiol – I'w gynnwys yn y cynllun gwella cydymffurfio |
|---|---|
| **RS1: Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion** | |
| d) Mae ganddo Fwrdd amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac | Defnyddir data yn bwrpasol er mwyn cynnig mewnwelediad manwl o'r gymuned, gan gynnwys amrywiaeth, i |

| | |
|---|---|
| sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol | sicrhau bod aelodaeth y Bwrdd yn adlewyrchu'r cymunedau hynny. |
| **RS3: Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel** | |
| c) Sicrhau bod gwasanaethau'n deg ac yn sicrhau canlyniadau teg i denantiaid mewn ymateb i'w hanghenion fel unigolion. | Sicrhau bod casglu a dadansoddi data mewnwelediad tenantiaid yn cael ei gryfhau a'i ddeall i roi sicrwydd bod y gwasanaethau a ddarperir yn deg ac wedi'u teilwra i anghenion unigol. |
| **RS4: Mae diwylliant y sefydliad yn cefnogi ac yn grymuso tenantiaid i ddylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau a'r modd y cant eu darparu** | |
| c) Mae'n gallu dangos bod safbwyntiau a disgwyliadau amrywiol tenantiaid yn llywio'r modd y mae gwasanaethau tai a gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu datblygu a'u hadolygu, gan gynnwys ymateb y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i fethiant sylweddol yn y gwasanaeth. | Sicrhau bod systemau cadarn ar waith i gasglu a chynnig tystiolaeth o safbwyntiau tenantiaid amrywiol i lywio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu tai a gwasanaethau cysylltiedig |

**Gofynion Hunanwerthuso a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025**

Nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'n llawn yr holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025 Rhaid mynd i'r afael â'r gofyniad fel y nodir isod yn llawn yn eich hunanwerthusiad nesaf:

> **Gofyniad 4**. Datganiad yn dangos sut mae safbwyntiau tenantiaid wedi'u deall a'u hystyried yn yr ymarfer hunanwerthuso, gan ddangos sut mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hystyried a'r gwahaniaeth a wnaethant.

Bydd Cymdeithas Tai Unedig Cymru yn cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

**Landlord Cymdeithasol Cofrestredig: Proffil**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | **6,872** |
| **Trosiant Blynyddol** | **£53,483 miliwn** |
| **Cymhareb Gerio** | **27%** |
| **Sicrwydd Llog** | **213%** |
| **Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | **Traddodiadol** |
| **Lleoliad** | **De Cymru** |

*Mae'r ffigurau uchod o 31/03/25, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

Mae dyfarniadau rheoleiddio'n cael eu llunio i roi syniad i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar:

- Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw unigolyn neu sefydliad arall ddibynnu ar ddyfarniad ac ni ddylid dibynnu arno at unrhyw ddiben arall. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnder a chywirdeb yr wybodaeth a rhoddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
CF48 1UZ
e-bost:housingregulation@llyw.cymru

ISBN digidol 978-1-80633-315-8
Hawlfraint y Goron 2025